| CABINET |
|---|

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 21 Ionawr 2025 |
| **Testun yr Adroddiad** | Diweddariad ar Allyriadau Carbon y Cyngor 2023/24 |
| **Aelod Cabinet** | Cydgyfrifoldeb |
| **Awdur yr Adroddiad** | Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) |
| **Math o Adroddiad** | Gweithredol |

## CRYNODEB GWEITHREDOL


Mae'r Cyngor yn cyfrifo ei ôl troed carbon yn flynyddol i fesur cyfanswm yr allyriadau nwy tŷ gwydr y mae'n gyfrifol amdanynt i fonitro a chyfeirio ymdrechion datgarboneiddio at Garbon Sero Net erbyn 2030. Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024 a chyflwynwyd y cyfrifiad i Lywodraeth Cymru ar 2 Medi 2024.

Mae'r Wybodaeth Ddiweddaraf am Allyriadau Carbon 2023/24 yn cyflwyno canlyniadau cyfrifiad 2023/24 a'u cymharu yn erbyn ffigurau blwyddyn sylfaen y Cyngor, sef 2018/19, sydd yn yr achos hwn yn dangos cynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnig eglurhad pam bod allyriadau wedi newid yn ogystal â nodi unrhyw welliannau neu anawsterau yn ymwneud â'r data a'r fethodoleg. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r cynnydd sylweddol a wnaed gan y Cyngor i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.


Mae'r adroddiad yn cloi gydag ystyriaethau i adolygu targedau ac adrodd yn fewnol ar allyriadau caffael, ymchwilio effeithiau cyfleusterau hamdden yn dod yn ôl dan reolaeth y Cyngor, a chyflwyno methodoleg i ddeall dal a storio carbon ar dir yn well.

| ARGYMHELLION | |
|---|---|
| 1 | Nodi cynnwys yr adroddiad, a'r cynnydd a wnaed yn y flwyddyn ddiwethaf i wella prosesau casglu data mewn perthynas ag ôl-troed carbon y Cyngor. |

## MANYLION YR ADRODDIAD

| 1.00 | ESBONIO'R ADRODDIAD |
|---|---|
| 1.01 | **Cefndir**<br>Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl-troed carbon 2023/24 yn cyflwyno canlyniadau cyfrifiad allyriadau carbon y Cyngor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024. Caiff yr allyriadau carbon eu cymharu yn erbyn blwyddyn sylfaen y Cyngor o 2018/19 a'r flwyddyn adrodd flaenorol o 2022/23, gan ddarparu esboniadau ar gyfer unrhyw newidiadau a welir. |
| 1.02 | **Pwrpas**<br>Mae'r Cyngor yn cyfrifo ei ôl troed carbon yn flynyddol i fesur cyfanswm yr allyriadau nwy tŷ gwydr y mae'n gyfrifol amdanynt i fonitro a chyfeirio ymdrechion datgarboneiddio at Garbon Sero Net erbyn 2030. Ym Medi 2024, roedd y cyfrifiad ar gyfer cyfnod 1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2023 wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. |
| 1.03 | Cyfanswm yr allyriadau carbon ar gyfer y cyfnod 2023/24 oedd 74,386 $tCO_2e$, cynnydd o 60.2% mewn allyriadau o'i gymharu â ffigyrau sylfaen 2018/19, a chynnydd o 130.1% o'r flwyddyn flaenorol.<br><br><br>***Delwedd 1** yn dangos newidiadau mewn allyriadau blynyddol fesul ffynhonnell.*<br><br>Achos y cynnydd hwn yw allyriadau o gaffael sydd wedi gweld cynnydd sylweddol yn sgil newid mewn methodoleg. Caiff y cynnydd hwn ei egluro yn adran 1.04. Mae ffynonellau allyriadau eraill wedi gweld gostyngiad sy'n adlewyrchu'r camau gweithredu cadarnhaol sy'n digwydd ar draws y Cyngor. Mae allyriadau adeiladu wedi lleihau 3.4% o'i gymharu â 2022/23 a 29.6% o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen. Mae allyriadau Symudedd a Chludiant wedi lleihau 3.2% o'i gymharu â 2022/23 a 20.4% ers y flwyddyn sylfaen. |

Mae'r fethodoleg ar gyfer allyriadau caffael yn parhau i fod yn hynod o heriol yn sgil y fethodoleg yn seiliedig ar wariant, gan gyfyngu ar y gallu i fesur a monitro yn ddibynadwy. Mae delwedd 2 yn tynnu'r ffynhonnell allyriadau caffael gan helpu i ddangos y gostyngiadau ar draws y ffynonellau Adeiladu a Symudedd a Chludiant yn fwy eglur.




***Delwedd 2** yn dangos newidiadau mewn allyriadau blynyddol fesul ffynhonnell ac eithrio allyriadau caffael.*

Petai'r allyriadau caffael yn cael eu heithrio o'r holl adroddiadau blaenorol, byddai cyfanswm allyriadau ar gyfer 2023/24 yn 12,909 $tCO_2e$, gostyngiad o 3.3% o'i gymharu â 2022/23, a gostyngiad o 26.1% o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen.

1.04 Yn 2023/24, roedd allyriadau o drydan adeiladau wedi cynyddu 2.4%, ac allyriadau o oleuadau stryd wedi cynyddu 7.4%, o'i gymharu â 2022/23.

Mae hyn o ganlyniad i ffactor allyriadau'r grid trydan yn cynyddu 7% o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol yn sgil mwy o gynhyrchiant o nwy naturiol, yn gwneud iawn am lai o gynhyrchiant o ynni adnewyddadwy. Fe wnaeth defnydd trydan ar gyfer adeiladau leihau 4.4% gan ddangos cynnydd i gynyddu effeithlonrwydd adeiladau a chynhyrchiant ynni adnewyddadwy ar safle. Cynyddodd defnydd trydan goleuadau stryd 0.2%.

Mae gostyngiad mewn allyriadau yn y thema Symudedd a Chludiant a welwyd yn 2023/24 yn cael ei esbonio yn bennaf gan ostyngiad mewn allyriadau Fflyd, ffynhonnell allyriadau mwyaf y thema. Gostyngodd allyriadau fflyd yn 2023/24 o 4.8% o'i gymharu â 2022/23. Nid yw Olew Nwy/Disel Coch bellach yn cael ei brynu yn sgil newidiadau deddfwriaethol,

| | |
|---|---|
| | ac mae cerbydau fflyd wedi, ac yn parhau i gael eu hamnewid gyda cherbydau newydd a mwy effeithlon, gan arwain ar ostyngiad yn y defnydd o danwydd.<br><br>Gostyngodd allyriadau teithio i'r gwaith i weithwyr 3.6% o'i gymharu â 2022/23. Mae hyn yn sgil y gostyngiad bychan mewn niferoedd y gweithwyr a ddefnyddir yn y fethodoleg a ffactor allyriadau llai ar gyfer cerbydau preifat gyda thanwydd anhysbys. Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd wedi cael ei gario drosodd o adroddiad y flwyddyn flaenorol. Nid yw hyn yn cynnwys methodoleg ddiwygiedig o'r Arolwg Teithio Gweithwyr 2023.<br><br>Mae allyriadau Teithio Busnes gyda char wedi cynyddu 9.9% o'i gymharu â 2022/23 a bellach 40.7% yn is na'r flwyddyn sylfaen. Mae hyn o ganlyniad i gynnydd mewn staff yn gwneud hawliadau (4.3%), a chyfanswm y milltiroedd a hawliwyd yn y cyfnod adrodd (9.5%). Yn ogystal, mae Teithio Busnes gyda thrên wedi cael ei gynnwys, gyda data'n cael ei gofnodi ers Ionawr 2024. Mae allyriadau ar gyfer y ffynhonnell hon yn fychan ar 0.048 tCO2e. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol o gynnydd ar gyfer Teithio Busnes gyda 2022/23 hefyd yn gweld cynnydd o 9.9%.<br><br>Mae'r cynnydd sylweddol mewn allyriadau Caffael yn bennaf o ganlyniad i fapio diwygiedig o'r categorïau gwario y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio'n fewnol i'r codau gwario a ddefnyddir yn y cyfrifiad allyriadau carbon. Mae'r diwygiad mapio wedi arwain at ddau ganlyniad.<br><br>• Mae gwariant wedi cael ei ddynodi ar draws mwy o gategorïau gwario.<br>• Mae mwy o wariant wedi cael ei gyfrif ar gyfer 2023/24.<br><br>Esboniad arall ar gyfer y cynnydd mewn allyriadau, mae'r ffactorau allyriadau o gategorïau lle mae Cyngor Sir y Fflint wedi dynodi gwariant yn 2023/24 wedi cynyddu 9.7% o'r flwyddyn flaenorol.<br><br>Mae cyfrifiad Caffael 2023/24 hefyd yn cynnwys allyriadau o dri chontract adeiladu cyfalaf sy'n defnyddio methodoleg haen uwch, ac mae defnyddio data gwirioneddol o'r prosiectau hyn yn arwain at allyriadau is o'i gymharu â gwariant. |
| 1.05 | Gan adeiladu ar y gwelliannau ar gyfer Defnydd Dŵr yn 2022/23, mae mân welliannau eraill wedi cael eu gwneud yn 2023/24. Roedd hyn yn cynnwys gwell dealltwriaeth fod data'n cael ei gyflenwi yn seiliedig ar gyfnodau bilio. Mae hyn yn galluogi data i gael ei dynnu'n fwy dibynadwy er mwyn osgoi cyfrif data'r flwyddyn flaenorol ddwywaith lle mae cyfnodau bilio yn mynd tu hwnt i'r cyfnod adrodd ar allyriadau.<br><br>Mae data ar gyfer Milltiroedd Busnes gyda char yn parhau i fod o ansawdd da gyda 67.2% o'r data yn bodloni'r haen uchaf o fethodoleg. Mae hyn yn ostyngiad bychan o gyfnod 2022/23 (71.9%) ac yn parhau i fod yn gyfyngedig gan nad all rhai gweithwyr gofnodi eu hawliadau yn electroneg |

| | |
|---|---|
| | sy'n eithrio gwybodaeth ar danwydd a maint injan. Mae hwn yn broblem hysbys ac yn parhau i geisio cael ei ddatrys.<br><br>Cynhaliwyd arolwg teithio gweithwyr yn Nhachwedd a Rhagfyr 2023, gyda'r nod o ddeall y rhwystrau i deithio mwy cynaliadwy a gwella'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer allyriadau teithio gweithwyr. Fodd bynnag, roedd cyfradd ymateb o 10% a data teithio gwallus yn gwneud yr ymatebion yn anghynrychioliadol o ran teithio staff (fel y nodwyd yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi, 11 Mehefin 2024). O ganlyniad, mae'r fethodoleg wreiddiol ar gyfer teithio staff wedi parhau ar gyfer 2023/24. Bydd arolwg teithio gweithwyr dilynol gyda chyfradd ymateb well yn helpu i sicrhau bod y data yn cynrychioli'r gweithlu.<br><br>Mae mwyafrif allyriadau Caffael yn parhau i gael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg gwariant, lle mae gwariant y Cyngor (£) yn cael ei luosi gan ffactor allyriadau penodol i gategori gwario penodol. Newid sylweddol ar gyfer cyfnod 2023/24 yw'r mapio diwygiedig o gategorïau gwario Cyngor Sir y Fflint (Thompson) i'r codau gwario a ddefnyddir yn y cyfrifiad allyriadau (codau SIC). Cynhaliwyd yr ymarfer mapio gan Gyngor Sir Ddinbych er mwyn dyrannu gwariant i gategori yn fwy cywir a chyson.<br><br>Mae hyn wedi arwain at gynnydd o 145% o wariant yn cael ei ddyrannu i'r cyfrifiad. Yn hanesyddol, mae gwariant wedi cael ei hepgor pan nad oes categori addas wedi'i nodi. Cafodd ffactorau allyriadau hefyd ei ddiweddaru yn y cyfnod 2023/24. Ar gyfer y categorïau lle'r oedd gan Gyngor Sir y Fflint wariant, roedd ffactorau allyriadau 9.7% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ddau newid yma yn egluro'r cynnydd sylweddol mewn caffael ac allyriadau cyffredinol y Cyngor, ac yn dangos anallu i fesur a monitro allyriadau caffael gan ddefnyddio'r fethodoleg hon.<br><br>Ar gyfer 2023/24, cafodd methodoleg haen uwch ei gynnwys yn y cyfrifiad o rai allyriadau caffael am y tro cyntaf. Cyflwynodd y prosiectau adeiladu ar gyfer Mynydd Isa, Ysgol Croes Atti a Theatr Clwyd ddata gwirioneddol lle defnyddiwyd allyriadau Cwmpas 1 a 2 i gyfrifiad caffael y Cyngor. Mae defnyddio'r fethodoleg hon yn cyfrifo allyriadau fel 321.9 $tCO_2e$ ar gyfer y tri phrosiect yma. Byddai dull yn seiliedig ar wariant wedi cyfrifo allyriadau fel 10,190 $tCO_2e$. Nid yw'r enghraifft hon a chanlyniad yr allyriadau yn gynrychiadol o'r holl gategorïau gwariant gan ddefnyddio methodoleg haen uwch, ond mae'n dangos y gwahaniaeth posibl mewn canlyniadau a'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan y Cyd-bartner Caffael Busnes a ddefnyddir ar y cyd gan Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ddinbych. |
| 1.06 | Allyriadau 2023/24 o'i gymharu â Thargedau a Blwyddyn Sylfaen 2018/19<br><br>- Mae allyriadau adeiladau wedi gostwng 29.6% ers 2018/19, a'r nod yw cyflawni gostyngiad o 35% erbyn 2024/25.<br>- Mae allyriadau Symudedd a Chludiant wedi gostwng 20.4% ers 2018/19, a'r nod yw cyflawni gostyngiad o 50% erbyn 2024/25.<br>- Mae allyriadau o weithgareddau caffael wedi cynyddu 112.2% ers 2018/19, a'r nod yw cyflawni gostyngiad o 30% erbyn 2024/25. |

Allyriadau 2023/24 o’i gymharu ag Allyriadau 2022/23

- Allyriadau Adeiladau: Gostyngiad o 3.4% (gyda tharged blwyddyn ar ôl blwyddyn o 9%)
- Allyriadau Symudedd a Chludiant: Gostyngiad o 3.1% (gyda tharged blwyddyn ar ôl blwyddyn o 9%)
- Allyriadau Caffael: Cynnydd o 223.8% (gyda tharged blwyddyn ar ôl blwyddyn o 8%)

Allyriadau Defnydd Tir

- Amcangyfrifir bod ein tir wedi gwaredu 1,513 $tCO_2e$
- Mae’r ffigwr hwn yn parhau o ddefnyddio ein ffigyrau defnydd tir a methodoleg blwyddyn sylfaen.
- Mae data ar faint a math o dir Cyngor Sir y Fflint yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd er mwyn cydnabod gwarediad, caffael a newidiadau i ddefnydd tir, megis plannu coed.
- Mae methodolegau cyfrifo amgen yn cael eu harchwilio er mwyn galluogi mwy o gywirdeb ar gyfer cyfrif carbon a chynnwys data plannu a thorri coed.

Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy

- Cynyddodd cyfanswm y cynhyrchiant ynni adnewyddadwy o 55.9% o’r cyfnod 2022/23 gyda 5,486,409 kWh yn cael ei gynhyrchu.
- Mae’r gwelliant hwn yn bennaf yn sgil ffermydd solar yn y Fflint a Chei Connah yn cwblhau eu blwyddyn gyntaf o gynhyrchiant.
- Mae cynhyrchiant ar draws yr holl ffermydd solar wedi cynyddu 124.6% ers 2022/23, gyda solar wedi gosod ar doeau yn cynyddu 11.37%.
- Mae trydan wedi’i gynhyrchu gan wynt wedi cynyddu 22%.
- Fodd bynnag, mae cynhyrchiant Biomass wedi lleihau 5.42% a Nwyon Tirlenwi 39.07% o’i gymharu â 2022/23.

1.07 Er bod camau cadarnhaol wedi cael eu gwneud i fesur allyriadau yn y thema Caffael, mae’r fethodoleg yn seiliedig ar wariant yn parhau i gyflwyno heriau sylweddol, fel y gwelir yn y newid mewn mapio codau gwario. Ni fydd y newid mapio hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y blynyddoedd blaenorol er mwyn diweddaru llinell sylfaen 2018/19, felly dylai targedau’r thema gael eu hadolygu fel ei bod yn bosibl mesur a monitro’r agweddau y mae’r Cyngor yn eu rheoli a’u dylanwadu.

Mae tynnu allyriadau caffael o ôl-troed carbon y Cyngor yn dangos y cynnydd parhaus i leihau allyriadau a/neu ddefnydd ynni o nifer o ffynonellau o nifer o ffynonellau y mae ganddo reolaeth neu ddylanwad uniongyrchol drostynt, ond ar gyfer 2023/24 nid oed yr un thema wedi diwallu ei darged blwyddyn ar ôl blwyddyn.

| | |
|---|---|
| | Mae Strategaeth Newid Hinsawdd y Cyngor yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, ac mae cyfrifiad allyriadau 2023/24 a'r datblygiadau diweddar wedi nodi ystyriaethau a ddangosir isod.<br>- Adolygu'r targedau ac adrodd mewnol allyriadau caffael.<br>- Ymchwilio i effeithiau allyriadau carbon cyfleusterau hamdden yn dychwelyd i reolaeth y Cyngor.<br>- Cyflwyno methodoleg Defnydd Tir newydd i ddeall yn well y bwlch i Garbon Sero Net a galluogi monitro newid mewn defnydd tir. |

| **2.00** | **GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU** |
|---|---|
| 2.01 | |

| **3.00** | **YMGYNGHORIADAU SY'N OFYNNOL / WEDI'U CYNNAL** |
|---|---|
| 3.01 | Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi, a nododd gynnwys yr adroddiad. |

| **4.00** | **RHEOLI RISG** |
|---|---|
| 4.01 | Mae risgiau wrth gyfrifo allyriadau carbon y bydd ansawdd neu ddiffyg data craidd, neu'r ffordd y caiff ei brosesu a'i adrodd, yn lleihau dibynadwyedd drwy wallau neu argaeledd. I fynd i'r afael â'r risg hon, mae'r tîm Newid Hinsawdd yn adolygu'r gwaith yn fanwl ac yn cael eu cefnogi gan awdurdodau lleol cyfagos drwy adolygiad cymheiriaid.<br><br>O ran Adroddiad Diweddariad Allyriadau Carbon 2023/24, risg allweddol yw cyfathrebiad gwael y Cyngor wrth adrodd ar ei gynnydd i Garbon Sero Net, sydd wedi'i beryglu gan allyriadau caffael sydd allan o reolaeth y Cyngor ac a ystyrir yn ymarfer academaidd yn unig. Eir i'r afael â'r risg trwy *Ddelwedd 2* yn *Adran 1.03* ac esboniadau pellach trwy gydol yr adroddiad.<br><br>Mae risgiau is o ran cyfathrebu yn cynnwys defnydd gwael o derminoleg neu gyflwyniad data sy'n creu dryswch neu gamddealltwriaeth. I fynd i'r afael â hyn, ystyrir iaith yn ofalus a darperir geirfa ar ddiwedd yr adroddiad. Cyflwynir data mewn tablau syml ac fe'u nodir ymhellach lle teimlir bod hynny'n ddefnyddiol i'r darllenydd. |
| 4.02 | **Effaith Egwyddorion Ffyrdd o Weithio (Datblygu Cynaliadwy)** |

| | |
|---|---|
| Hirdymor | Cadarnhaol: Bydd y Pwyllgor Craffu yn cael gwybod am gynnydd y Cyngor tuag at gyflawni'r targed Carbon Net Sero erbyn 2030, yn ogystal â llwyddiannau a heriau. Wrth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | wneud hyn bydd y Pwyllgor yn gallu craffu ar y canlyniadau yn effeithiol. |
| | | Atal | Cadarnhaol: Bydd y diweddariad yn rhoi gwybod am allyriadau sydd wedi cael eu hatal yn y flwyddyn adrodd a sut gellir atal allyriadau yn y dyfodol drwy fynd i'r afael â materion a nodwyd. |
| | | Integreiddio | Cadarnhaol: Mae'r Wybodaeth Ddiweddaraf ar Allyriadau Carbon 2023/24 yn ffurfio rhan o broses gyfrifo, datgarboneiddio ac adrodd ar allyriadau carbon, sydd yn ei dro'n integreiddio â'r blaenoriaethau canlynol dan Gynllun y Cyngor; Cyngor Gwyrdd, Cyngor Uchelgeisiol a Chyngor Cefnogol. Mae'n integreiddio ag amcanion y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn y flaenoriaeth Amgylchedd yn y Cynllun Lles, yn ogystal â'r prosiect Mynediad Clyfar at Ynni ym Margen Dwf Gogledd Cymru. Mae hefyd yn integreiddio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a rhaglen ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru. |
| | | Cydweithio | Cadarnhaol: Mae'r diweddariad yn egluro'r cynnydd a wnaed i gyflwyno methodolegau haen uwch ar gyfer caffael, canlyniad o gydweithio rhwng Cynghorau Sir y Fflint a Sir Ddinbych. |
| | | Cyfranogi | Cadarnhaol: Mae'r diweddariad yn amlygu'r angen parhaus i wella ansawdd data, sydd eto'n cynnwys teithio staff a chaffael, er mwyn targedu ymdrechion datgarboneiddio a gwella monitro. |
| 4.03 | **Effaith Nodau Lles** | | |
| | | Cymru Lewyrchus | Cadarnhaol: Mae buddion ynghlwm â datgarboneiddio'r Cyngor, gan gynnwys llai o gostau ynni, rhagor o gynhyrchiant drwy ynni adnewyddadwy a rhagor o reolaeth drwy fonitro gwell. |

| | |
|---|---|
| Cymru Gydnerth | Cadarnhaol: Gellir cynyddu gwytnwch drwy leihau'r galw am ynni a'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil. Drwy fonitro allyriadau ac ansawdd data, gallwn wella strategaethau datgarboneiddio a thargedu meysydd sy'n llai gwydn nag eraill. Bydd gwell monitro o ddefnydd tir yn y dyfodol hefyd yn dod â buddion gwytnwch hinsawdd. |
| Cymru Iachach | Cadarnhaol: Mae gwireddu'r cynnydd tuag at gyflawni'r targed Carbon Sero Net erbyn 2030 yn hyrwyddo agwedd gadarnhaol mewn perthynas â newid hinsawdd er mwyn mynd i'r afael â materion cysylltiedig megis gorbryder a straen. Bydd mynd i'r afael ag allyriadau yn yr ardal leol (e.e. cludiant) hefyd yn cefnogi iechyd corfforol pobl. |
| Cymru sy'n Fwy Cyfartal | Niwtral: Ni nodwyd unrhyw effaith. |
| Cymru sy'n Gydlynol | Niwtral: Ni nodwyd unrhyw effaith. |
| Cymru sy'n Fywiog | Niwtral: Ni nodwyd unrhyw effaith |
| Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang | Cadarnhaol: Mae'r diweddariad yn adrodd ar sut mae'r Cyngor yn lleihau ei gyfraniad tuag at gynhesu byd eang drwy leihau allyriadau ac yn gwneud argymhellion ar sut i wneud cynnydd pellach. |

| **5.00** | **ATODIADAU** |
|---|---|
| 5.01 | |

| **6.00** | **RHESTR O DDOGFENNAU CEFNDIR HYGYRCH** |
|---|---|
| 6.01 | Dim |

| **7.00** | **MANYLION Y SWYDDOG CYSWLLT** |
|---|---|
| 7.01 | **Swyddog Cyswllt:**Ben Turpin - Swyddog Prosiect Newid Hinsawdd<br>**Rhif ffôn:** 01352 703393<br>**E-bost:** ben.turpin@flintshire.gov.uk |

| **8.00** | **RHESTR TERMAU** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| 8.01 | **Blwyddyn Sylfaen:** Yr allyriadau a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2018- 31 Mawrth 2019 yw'r hyn y mae'r targedau yn seiliedig arnynt a'r hyn y bydd holl gyfrifiadau allyriadau carbon yn y dyfodol yn cael eu cymharu â nhw.<br><br>**Allyriadau Carbon**: Caiff y term hwn ei ddefnyddio yn gyfnewidiol gydag allyriadau nwyon tŷ gwydr; sy'n golygu allyriadau carbon deuocsid, methan ac ati o ffynonellau a gweithgareddau dynol a naturiol. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr ehangach yn cael eu cyfrifo ar y cyd i 'gywerthedd carbon deuocsid' a nodir fel CO2e.<br><br>**Ôl Troed Carbon**: Mesur o allyriadau carbon y Cyngor yn ystod cyfnod penodol o amser, a ddarperir fel tunelli o garbon deuocsid cyfatebol (t$CO_2$e)<br><br>**Dal a storio carbon:** y broses a ddefnyddir i ddal carbon a storio carbon deuocsid atmosfferig yn hirdymor.<br><br>**Datgarboneiddio -** Gostyngiad mewn allyriadau carbon sy'n deillio o weithgarwch, deunydd neu gynnyrch<br><br>**Nwyon Tŷ Gwydr / Allyriadau Carbon:** Allyriadau carbon deuocsid, methan ac ati o weithgareddau a ffynonellau dynol a naturiol. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr ehangach yn cael eu cyfrifo ar y cyd i 'gyfwerth â charbon deuocsid' yn cael eu harddangos fel $CO_2$e.<br><br>**Methodoleg:** Sut caiff y data craidd a gasglwyd a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau allyriadau carbon ei reoli a'i sgorio o ran dibynadwyedd. Caiff hyn ei reoli gan Lywodraeth Cymru.<br><br>**Carbon Sero Net -** Lleihau allyriadau carbon a chydbwyso unrhyw garbon sy'n weddill â gweithgareddau gwaredu carbon deuocsid.<br><br>**Data Craidd:** Yr unedau data mwyaf sylfaenol a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo allyriadau carbon. Mae enghreifftiau'n cynnwys unedau o ynni (kWh o drydan), math o gerbyd a milltiroedd, tunelli o wastraff penodol, ac ati.<br><br>**Categorïau Gwario** Categori nwyddau a gwasanaethau penodol o fewn y cyfrifiad caffael sydd â ffactor allyriadau (kg$CO_2$e fesul £ sy'n cael ei wario). |